# PAHAM
# Y
# LLOSGASOM
# YR
# YSGOL FOMIO

GAN

SAUNDERS LEWIS

A

LEWIS VALENTINE

PRIS - - TAIR CEINIOG

*Yr Anerchiad hon a baratôdd Saunders Lewis, Llywydd y Blaid Genedlaethol, ar gyfer ei thraddodi i'r Rheithwyr yn Llys yr Assize yng Nghaernarfon, Hydref 13, 1936*

FONEDDIGION,

Y mae'n wir ein bod ni'n tri, y Parchedig Lewis Valentine, a Mr. D. J. Williams a minnau, wedi llosgi coed ac adeiladau'r Gwersyll Bomio ym Mhenyberth. Nyni ein hunain oedd y cyntaf i roi rhybudd i'r plismyn am y tân, a rhoisom wybod iddynt hefyd mai nyni oedd yn gyfrifol amdano.

Ond er hynny, yr ydym yn dal yn gadarn nad gweithred drwg-weithredwyr na thorwyr cyfraith oedd y weithred hon, eithr ei bod yn weithred y bu'n rhaid ac yn ddyletswydd arnom ei gwneud, ei bod hi'n weithred a gyflawnwyd gennym o ufudd-dod i alwad cydwybod ac i'r ddeddf foesol, ac mai Llywodraeth Loegr biau'r cyfrifoldeb am unrhyw golled a fu oherwydd yr hyn a wnaethom.

Yr ydym ein tri yn ddynion sy mewn galwedigaethau breiniol ac yn dal swyddi parchedig, swyddi o ymddiriedaeth, swyddi diogel. Rhaid imi siarad yn awr amdanaf fy hun. Yr wyf yn athro ar lenyddiaeth Gymraeg yng ngholeg Prifysgol Cymru yn Abertawe. Dyna fy ngalwedigaeth. Dyna hefyd sail fy malchder a'm pleser pennaf. Y mae llenyddiaeth Cymru yn un o lenyddiaethau ardderchocaf Ewrop. Llenyddiaeth Cymru yw'r unig etifedd uniongyrchol yn yr ynysoedd hyn i ddisgyblaeth lenyddol y gwledydd clasurol, Groeg a Rhufain. A llenyddiaeth yw hi sy'n fyw ac yn tyfu, ac yn tynnu ei maeth a'i phrifiant allan o iaith lafar fyw ac allan o fywyd cymdeithasol sy'n cadw ei hen draddodiadau'n ddidor.

Sylweddoli'r cysylltiad hanfodol hwn rhwng llenyddiaeth a bywyd cymdeithas draddodiadol yng Nghymru a'm tynnodd i gyntaf oddi wrth waith llenyddol yn unig i ymroi hefyd i waith cyhoeddus ac i sefydlu gydag eraill Blaid Genedlaethol Cymru.

**A'r argyhoeddiad erchyll y byddai gwersyll bomio'r llywodraeth Seisnig yn Llŷn yn anelu'n farwol at un o aelwydydd hanfodol y diwylliant Cymraeg, y peth mwyaf pendefigaidd a fedd cenedl y Cymry, hynny a barodd imi farnu bod fy ngyrfa i, a hyd yn oed**

**ddiogelwch fy nheulu, yn bethau y dylwn eu haberthu er mwyn arbed cyflafan mor enbyd.**

Canys nid llenyddiaeth farw, nid llenyddiaeth a'i diddordeb yn bennaf i chwilotwyr am hen bethau, a ddysgais i yn stafelloedd y Brifysgol. Nage, yr wyf yn dysgu i ddynion ifainc Cymru lenyddiaeth fyw y genedl Gymreig. Am hynny y mae gan y llenyddiaeth hon hawliau arnaf fel dyn yn gystal ag fel athro. Ac y mae'n ddiogel gennyf fod yr hyn a wneuthum i i'r gwersyll bomio ym Mhenyberth yr wythfed o Fedi wedi achub anrhydedd Prifysgol Cymru, oblegid ar wahân i iaith a llenyddiaeth Cymru nid oes gan y Brifysgol hon esgus dros ei bod.

Gair ymhellach am fy rhan mewn bywyd cyhoeddus. Bûm ers deng mlynedd yn llywydd ar Blaid Genedlaethol Cymru. Bûm yn aelod o'r Pwyllgor Cynghori ar Ddarlledu a sefydlwyd gan Brifysgol Cymru ar gais y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ac a lywyddwyd gan Ddirprwy-Ganghellor y Brifysgol, Esgob Mynwy. Gwneuthum astudiaeth arbennig o broblemau economaidd y dirwasgiad diwydiannol yng Nghymru a moddion adrefniad cymdeithasol, a myfi oedd cychwynnydd y mudiad i sefydlu'r Cyngor Datblygiad Diwydiannol Cenedlaethol Cymreig.

Yn Neheudir Cymru gweithiais lawer gyda'm cydwladwyr diwaith yn eu clybiau a'u sefydliadau, a sefydlais Glwb Cinio Difiau, Clwb y mae rhif ei aelodau ar gynnydd drwy Gymru. Trwy berthyn i'r Clwb hwn y mae pob aelod sydd yn gysurus arno yn aberthu ei ginio un diwrnod o bob wythnos, ac yn anfon pris y cinio i dalu am ginio ar Ddydd Iau i fachgen neu ferch a fo allan o waith ac yn brin o fwyd y dydd hwnnw.

Os ystyriwch chwi'r pethau hyn, ac os chwiliwch chwi hanes a rhaglen a phropaganda Plaid Genedlaethol Cymru, fe gewch fod ein holl weithredoedd a'n rhaglen yn adeiladol a heddychol. Ni cheisiasom derfysg erioed. Ni wnaethom derfysg. Nid apeliasom erioed at bobl wyllt. Yn wir, y gwyn gyffredin yn ein herbyn yw ein bod yn rhy ddysgedig ac anwerinol. Mi ddywedais i dro ar ôl tro mewn areithiau cyhoeddus ac mewn ysgrifau mai'n heddychol ac nid trwy derfysg na thrwy drais yr enillem ryddid politicaidd



i Gymru. Dwedaf hynny eto'n awr. Ac mi ddymunwn i chwi ddeall bod ein gweithred ni ar adeiladau'r Gwersyll Bomio ym Mhenyberth yn gwirio'r gair.

Pe dymunem ddilyn dulliau trais a dulliau herio a pherygl, y dulliau y gorfodir cenhedloedd bychain yn aml i'w dilyn oherwydd gormesu'n annioddefol arnynt, hawdd a fuasai i ninnau, arweinwyr y Blaid Genedlaethol, ofyn i rai o fechgyn ifainc eiddgar a brwdfrydig y Blaid danio'r Gwersyll Bomio a dianc heb i neb eu gweld na'u dal. Buasai'n hawdd, yn enwedig gyda'r math o wyliwr nos a oedd ym Mhenyberth. Ond buasai hynny'n gychwyn i gyfnod o herio ac ymosod. Penderfynodd Mr. Valentine a minnau y gwnaem bob dim a allem i rwystro'r fath ddatblygiad, ac mai ar eraill y byddai'r cyfrifoldeb pe gwthid Cymru fyth i'w hamddiffyn ei hun fel yna.

Pan fethodd pob un dull heddychol a chyfreithiol i geisio perswadio'r llywodraeth i atal y Gwersyll Bomio, pan fethodd gennym hyd yn oed gael gwrando am eiliad ar ein hapêl, pan welsom yn glir fod holl wareiddiad Cymru mewn perygl einioes, hyd yn oed ar yr awr honno penderfynasom yr apeliem at y gyfraith ac y câi deuddeg rheithiwr o blith ein cydwladwyr yng Nghymru roi barn a dedfryd ar ein gweithred.

Nyni ein hunain, gwŷr cyhoeddus yng Nghymru, dynion canol oed ac arweinwyr Plaid Genedlaethol Cymru, a roes yr adeiladau a'r coed hyn ar dân. Nyni a roes wybod hynny i swyddogion y gyfraith. Rhoisom bob help i'r plismyn baratoi'r achos yn ein herbyn. Yr ydym yma gerbron y frawdle hon o'n hewyllys ein hunain. Yr ydym yma nid yn unig er mwyn Cymru, eithr hefyd er mwyn heddwch ac fel y byddo cyfathrach Cymru a llywodraeth Lloegr yn awr ac yn y dyfodol yn heddychol, ac yn gorffwys ar seiliau cyfraith a chyfiawnder.

Fe'n cyhuddir ni o fod wedi cyflawni gweithred "anghyfreithlon." Bwriadaf ateb y cyhuddiad yna drwy apêl at reswm, ac mi drefnaf yr ymresymiad yn bedwar pwynt.

Yn gyntaf, dangosaf fod y bobl fwyaf diwylliedig drwy Gymru

gyfan yn edrych dan ffieiddio ac arswydo ar y bwriad i godi Gwersyll Bomio yng ngwlad Llŷn.

Yn ail, ein bod wedi mynd ati ar draul fawr a thrwy lafur ac aberth i geisio ym mhob modd a dull argyhoeddi'r llywodraeth Seisnig o ysgelerder gosod y Gwersyll Bomio hwn yn Llŷn, ond na thyciodd dim.

Yn drydydd, dangosaf fod protestiadau Seisnig yn erbyn gosod Gwersylloedd Bomio yn Lloegr, er mai ffregod oedd eu rhesymau wrth resymau'r protestiadau yn Llŷn Gymreig, eto'n cael clust y llywodraeth ac ystyriaeth garedig a chroeso.

Yn bedwerydd, ceisiaf ddangos mai'r llywodraeth ei hun a'n gosododd ni, a fu'n arweinwyr yr ymdrech yn erbyn y Gwersyll Bomio, yn y fath gyfyngder ag na allem ni ufuddhau i ddeddf foesol Duw ac ufuddhau i'r gyfraith wladol. Ac felly haeriaf fod terfyn sicr i hawliau cyfreithiol y Wladwriaeth, hynny yw, y llywodraeth Seisnig, pan fo hi'n herio'r ddeddf foesol ac yn treisio hawliau anwadadwy'r genedl Gymreig.

Sgrifennodd yr Athro J. E. Daniel bamffled Saesneg yn egluro'n gryno ac yn ddigonol arswyd calon pob Cymro ystyriol yn wyneb y Gwersyll Bomio hwn yn Llŷn. Dywedodd hyn:

> "Ffaith seml mewn hanes yw bod Llŷn o'r bumed ganrif "hyd at heddiw yn wlad drwyadl Gymraeg, a thra erys Llŷn "heb berygl i'w Chymreictod bydd bywyd Cymru a diwylliant "Cymraeg yn ddiogel. Ond unwaith yr ymgartrefa'r iaith "Saesneg y tu cefn i fynyddoedd Eryri yn gystal â'r tu blaen "iddynt ni bydd fawr oedi cyn cau o'r gefeiliau hynny am iaith "a diwylliant Cymru, a darfod amdanynt. I Gymru, y mae "achub Llŷn rhag ei Seisnigo yn antur einioes."

Dyna'r gwir. Y mae diogelu parhad y diwylliant Cymraeg, a fu'n gadwyn ddi-dor yn clymu pedair canrif ar ddeg o fywyd Llŷn wrth ei gilydd, yn "antur einioes."

Dywedais mai fy swydd i yw dysgu llenyddiaeth Gymraeg. Yr oedd fy nhaid yn weinidog efengyl, yn ysgolhaig ac yn llenor. Cychwynnodd ei yrfa yn y weinidogaeth ym Mhwllheli. Ysgrif-



ennodd glasur pennaf rhyddiaith Gymraeg yn y ganrif ddiwethaf: "Cofiant John Jones Talsarn." Un o benodau mawr y llyfr hwnnw yw'r bennod a ddisgrifia arweinwyr bywyd crefyddol Llŷn ac Eifionydd yn nechrau'r ganrif. Y mae'n amhosibl i neb a chanddo waed coch yn ei wythiennau beidio â chlywed ei galon yn gwaedu pan wêl ef godi'r Gwersyll Bomio Seisnig yng nghanol gwlad a fu erioed yn aelwyd i Gymru a Chymraeg.

Y mae gennyf yma gasgliad o farddoniaeth a sgrifennwyd yn Llŷn: "Cynfeirdd Llŷn," gan Fyrddin Fardd. Ar dudalen 176 o'r llyfr hwn ceir cywydd a gyfansoddwyd tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg mewn ffermdy urddasol gerllaw Llanbedrog a'i enw Penyberth. Yr oedd y tŷ hwnnw yn un o'r tai mwyaf cysegredig yn Llŷn. Yno y gorffwysai'r pererinion Cymreig ar eu ffordd i Ynys y Saint, Ynys Enlli. Yr oedd gan y tŷ hwn gysylltiadau ac atgofion am Owain Glyndŵr. Yr oedd y tŷ hwn yn perthyn i hanes llenyddiaeth Cymru. Yr oedd yn gysegredig ac yn barchedig ers canrifoedd meithion. Tynnwyd y tŷ hwn i'r llawr garreg oddi wrth garreg, maluriwyd ef heb adael maen i ddangos ei le wythnos yn union cyn i ninnau losgi ar ei gaeau ef goed a siediau'r fandaliaid a'i difethodd ef.

Mi fentraf innau ddweud heb betruso mai'r dynion a ddylai fod yn sefyll yma yn y doc ar brawf am eu drwgweithred yw'r dynion a fu'n gyfrifol am dynnu i lawr hen dŷ Penyberth.

A chofiwch fod cwymp Penyberth ym marn pob gŵr diwylliedig yn arwydd ac yn broffwydoliaeth. Fel y tyf y Gwersyll Bomio yn Llŷn yn ganolfan milwrol mwy a mwy, ac y mae'n ddiogel mai felly y bydd os gedir iddo, felly fe ddinistria bob aelwyd Gymraeg yn Llŷn, holl burdeb tafodiaith y wlad, a'i thraddodiadau oll a'i llenyddiaeth. Fe ddinistria sylfaen ysbrydol y genedl Gymreig, a'i gadael hithau megis y mae ffermdy Penyberth heddiw.

Gwybod hynny, a deall y gyflafan ar ddiwylliant a thraddodiadau Cymru a wnâi'r Gwersyll Bomio, a barodd i filoedd o'n cydwladwyr na pherthynent i'r Blaid Genedlaethol ymuno gyda ni yn yr ymgyrch yn erbyn y drygwaith.

Rhaid imi ddangos yn awr fel yr unodd y genedl yn y protestiadau, ac na adawsom ddim oll heb ei wneud i geisio argyhoeddi llywodraeth Loegr ein bod mewn difrif enbyd, a dangos ein bod, yn wir, yn wir, wedi rhoi prawf ar bob un dull posibl heddychol a chyfreithlon i gael gan y llywodraeth atal y drwg. Ceisiaf grynhoi hanes y protestiadau a'i adrodd yn fyr.

Ym mis Mehefin llynedd y cyhoeddwyd gyntaf fwriad y Weinidogaeth Awyr i osod Gwersyll Bomio yn Llŷn. Yr un diwrnod pasiodd pwyllgor o gynrychiolwyr canghennau'r Blaid Genedlaethol yn Sir Gaernarfon benderfyniad o brotest, ac anfonwyd at Weinidog y Llu Awyr Seisnig i ofyn ganddo atal y bwriad.

Yr oedd misoedd traean olaf y flwyddyn yn llawn helbul. Rhyfel yn Abysinia, ofni rhyfel rhwng Lloegr a'r Eidal neu ryfel cyffredinol drwy Ewrop. Yna gwasgarwyd Senedd Lloegr, a bu etholiad cyffredinol. Yn yr holl sŵn a thrafferth aeth perygl Llŷn dan gysgod i raddau, ond bu'n bwynt arbennig yn anerchiad yr Athro Daniel yn etholiad Arfon, a phasiwyd protestiadau yn ei erbyn gan nifer o gyrff crefyddol ac eglwysi unigol yng Ngogledd Cymru.

Yn Ionawr y flwyddyn hon ail-gychwynwyd y crwsâd yn erbyn y Gwersyll Bomio o ddifrif. O ddechrau Ionawr ymlaen peidiodd â bod yn bwnc o ddiddordeb lleol. Gwelodd Cymru gyfan y perygl a deffrodd y genedl. Cynhaliwyd cyfarfodydd protest ym mhob cwr o Lŷn a Sir Gaernarfon oll. Pasiwyd penderfyniadau o brotest yn unfrydol gan eglwysi a chan sasiynau ac undebau enwadol ledled Cymru.

Y mae'n arbennig dda gennyf gael talu teyrnged yma i weinidogion anghydffurfiol Cymru am mai hwynt-hwy a fu'n fwyaf egnïol yn arwain y protestio ym mhob ardal trwy'r wlad.

Ond deuai'r protestiadau'n gyffredinol hefyd oddi wrth gymdeithasau a sefydliadau lleygol, oddi wrth Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, oddi wrth Urdd Gobaith Cymru, oddi wrth Gymdeithasau Cymrodorion yng Nghaerdydd ac Abertawe a Llanelli ac Aberystwyth, yn gystal ag oddi wrth y cymdeithasau Cymreig y tu allan i Gymru, yn Llundain, ym Manceinion a Lerpwl a



Birmingham. Cyn y cyntaf o fis Mai pasiwyd penderfyniadau unfryd gan chwe chant o sefydliadau yn gofyn am wahardd y Gwersyll Bomio yn Llŷn. Anfonwyd y penderfyniadau hyn at Weinidog y Llu Awyr yn Llundain, ac yr oedd y Wasg Gymreig, yr holl bapurau wythnosol fel ei gilydd, yn adlewyrchu digllonedd ac unfrydedd y wlad.

Cafodd y Prif Weinidog a Gweinidog y Llu Awyr bob hyfforddiant am drylwyredd y gwrthwynebiadau. Mawrth 31 mi sgrifennais i at y Prif Weinidog yn crefu arno, gan fod y sefyllfa'n wir ddifrifol, am gael ymddiddan preifat gydag ef. Dywedais hyn:

> **"Y mae corff sylweddol o bobl Cymru yn edrych ar y bwriad "hwn fel un y bydd yn iawn aberthu rhyddid a hyd yn oed "aberthu bywyd er mwyn ei luddias."**

Gwrthododd y Prif Weinidog fy nghais am ei weld, ac anfonodd mewn ateb ddatganiad ystrydebol yn yr un geiriau'n union ag yr atebwyd yr holl brotestiadau eraill.

Fe'm gwahoddwyd innau i ddarlledu sgwrs ar "Genedlaetholdeb Cymru" y cyntaf o Fai gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Deliais ar y cyfle i apelio'n daer am achub Llŷn rhag y Gwersyll Bomio. Cyhoeddwyd y sgwrs yn "The Listener." Ni chymerth y llywodraeth unrhyw sylw o'r apêl.

Trefnasom ddeiseb ymhlith pobl Llŷn. Gwŷr a merched a roes eu holl amser yn ddi-dâl oedd ein gweithwyr ni, ac ar eu pwrs eu hunain ac ar eu bwyd eu hunain yr aethant o bentref i bentref ac o ffarm i ffarm drwy holl gyrrau Llŷn. Torrodd dros 5,000 o etholwyr Llŷn eu henwau ar y ddeiseb hon yn crefu ar y Senedd a'r Prif Weinidog i atal codi'r Gwersyll Bomio. Cafodd ein gweithwyr groeso brwd ym mhobman. Diolch a chydymdeimlad cyffredinol oedd eu rhan, a phe buasai amser wedi caniatau cawsent yn ddi-os enwau holl boblogaeth Llŷn ar y ddeiseb.

Deisebwyd yn gyffelyb yn ardal Llanberis ac ymhlith Cymry Lerpwl, lle yr arwyddwyd papurau'r ddeiseb gan 5,000 o wŷr a merched mewn oed. **Cyn terfyn mis Mai yr oedd ychwaneg na mil o eglwysi a chymdeithasau Cymreig, yn cynrychioli dros**

**chwarter miliwn o bobl Cymru, wedi pasio'n ffurfiol benderfyniadau protest.**

Mai 23, bu cyfarfod protestio terfynol, cenedlaethol, ar y maes ym Mhwllheli. Daeth yno rhwng saith ac wyth mil o bobl. Daethant mewn bysiau modur o bob rhan o Ddeheudir Cymru, o Ganolbarth Cymru, o Ogledd Cymru ac o ganolfannau Cymreig y tu allan i ffiniau Cymru, megis Llundain a Lerpwl a Birmingham. Cafodd y cyfarfod enfawr hwn sylw cyffredinol gan y papurau newydd Saesneg oblegid cais rhyw hanner cant o derfysgwyr meddw o slymiau Pwllheli i rwystro'r anerchiadau oddi ar y llwyfan.

Cynrychiolai'r llwyfan bob gwedd ar fywyd Cymru, pob plaid, arweinwyr crefyddol, arweinwyr llên ac ysgolheictod. Llywyddwyd gan y llenor pennaf yng Nghymru, yr Athro W. J. Gruffydd. Dywedodd un o adroddiadau'r wasg (y "Liverpool Daily Post"):

> **"Rhoes yr Athro Gruffydd gerbron y cynulliad y penderfyniad yn galw ar y llywodraeth i dynnu'n ôl eu cynlluniau yn Llŷn ac yn gofyn i'r Prif Weinidog dderbyn dirprwyaeth i ymdrin â'r mater. Ar godiad dwylo yr oedd mwyafrif llethol o blaid y penderfyniad. Ni chafodd yr wrthblaid ond prin hanner cant o gefnogwyr."**

Mehefin 4 anfonwyd, gan hynny, at y Prif Weinidog yn erfyn arno dderbyn dirprwyaeth genedlaethol Gymreig. Anfonwyd y llythyr ar ran y 5,000 o ddeisebwyr Llŷn, y miloedd a arwyddodd ddeisebau y tu allan i Lŷn, ac ar ran pymtheg cant o gyrff eglwysig a lleygol Cymreig, yn cynrychioli'n agos at hanner miliwn o boblogaeth Cymru, a brotestiasai'n ffurfiol yn erbyn y Gwersyll Bomio yn Llŷn.

Arwyddwyd y llythyr at y Prif Weinidog yn deisyf arno dderbyn y ddirprwyaeth gan ychwaneg nag ugain o arweinwyr amlycaf Cymru. Yn eu plith yr oedd Prifathrawon Colegau Diwinyddol Aberystwyth, Bala-Bangor a'r Bala, Ysgrifennydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion, Esgob Minevia, Llywydd Cymdeithasfa'r Methodistiaid Calfinaidd a Llywydd Undeb yr Eglwysi Annibynnol, golygyddion y prif gylchgronnau



Cymraeg, Athrawon cadeiriog iaith a llenyddiaeth Cymru yng ngholegau'r Brifysgol yn Aberystwyth ac ym Mangor.

Atebodd un o ysgrifenyddion y Prif Weinidog:

> "Nid yw'r Prif Weinidog yn gweld y byddai o unrhyw wasanaeth na budd iddo dderbyn dirprwyaeth."

Mehefin 15 adroddwyd yn y prif bapurau newydd sy'n rhedeg yng Nghymru:

> "Cliriwyd bellach dros ddau gant o erwau ar ffarm Penyberth ar gyfer y Gwersyll Bomio. Bydd yr adeiladwyr yn cychwyn codi'r adeiladau heddiw."

Fel yna y terfynodd yr hir ymdrech a wnaethom i ennill gwrandawiad drwy foddion heddychol a democrataidd. Bellach nid oedd ond un llwybr o'n blaenau, llwybr aberth.

Ond ni ellir pwyso'n deg effaith gwrthodiad dirmygus y llywodraeth Seisnig i roi clust i'n hapeliadau ar deimladau Cymru'n gyffredin, a'r effaith ar y Parchedig Lewis Valentine a minnau fel arweinwyr yr ymgyrch, heb wybod hefyd am yr hyn a wyddem ni drwy'r holl gyfnod, sef y gwahaniaeth enfawr rhwng agwedd y llywodraeth tuag at Gymru a'i hagwedd tuag at brotestiadau yn erbyn gwersylloedd bomio yn Lloegr.

Cymerwn, er enghraifft, Abbotsbury yn swydd Dorset. Y mae'n enwog fel magwrfa eleirch. Oblegid hynny cododd nifer o feirdd a llenorion Seisnig, ac mewn llythyrau yn y papurau Saesneg mynegi'n huawdl eu cariad angerddol tuag at eleirch a'u nythfeydd. Symudwyd y gwersyll bomio oddi wrth y nythoedd.

Yna yn ardal Holy Island yn Northumbria. Anfonodd Mr. G. M. Trevelyan lythyr i'r "Times," Ionawr 12, yn egluro bod Holy Island yn gysegredig; yr oedd gweithwyr y trefi cyfagos yn mynd yno am seibiant; yr oedd i'r ynys atgofion am Cuthbert Sant a'r llan yn Lindisfarne; yn bennaf oll, dyma gartref pwysicaf adar gwylltion yn Lloegr oll. Dadleuodd gyda huodledd effeithiol fod hwyaid gwylltion yn Northumbria yn llawn mor santaidd a chysegredig ag eleirch dof yn Dorset. Cytunodd prif ysgolheigion

Lloegr mai gwir oedd hynny. Dychrynnodd Swyddfa'r Llu Awyr yn Llundain. Galwyd cynhadledd i ystyried tynged yr adar santaidd. Fe symudwyd y gwersyll bomio.

Trydydd lle y ceisiwyd gosod gwersyll oedd Friskney. Yno cododd yr awdurdodau lleol mewn protest yn erbyn cymryd ffermydd da a daear amaethyddol werthfawr a dinistrio pysgodfeydd. Aeth y Llu Awyr oddi yno hefyd.

**A wnewch chwi geisio deall ein teimladau ni pan welsom ysgolheigion a llenorion blaenaf Lloegr yn sôn am "gysegredigrwydd" hwyaid ac eleirch, ac ar gorn hynny yn llwyddo i gael gan Weinidog y Llu Awyr symud gwersylloedd bomio, a ninnau yng Nghymru, yn union yr un adeg, yn gorfod trefnu ymgyrch fawr genedlaethol i amddiffyn y pethau gwir gysegredig yng nghreadigaeth Duw, sef cenedl, ei hiaith, ei llenyddiaeth, ei thraddodiadau oesol a'i bywyd gwledig Cristnogol, ac ni chaem ni gan y llywodraeth gymaint â derbyn dirprwyaeth i ymddiddan ynghylch y peth?**

Mehefin 22 cyfarfu Undeb yr Eglwysi Annibynnol Cymreig ym Mangor. Y llywydd oedd un o weinidogion blaenaf Anghydffurfiaeth Cymru, ac yr oedd ef hefyd newydd ei apwyntio'n Arch-Dderwydd Cymru, sef y Parchedig J. J. Williams, Treforus. Ar benderfyniad a gondemniai'r Gwersyll Bomio yn Llŷn dywedodd y llywydd parchedig hyn:

> "Ein bwriad yw ceisio rhwystro sefydlu'r gwersyll bomio "hwn drwy bob dull a modd cyfreithlon. **Ond os metha pob "dull cyfreithlon credaf fod digon o nerth ewyllys yn y Genedl "Gymreig i symud ymaith y gwersyll bomio drwy ddulliau "eraill."**

Llefarodd y Parchedig J. J. Williams dros Gymru. Eithr—a deuaf yn awr at bwynt hanfodol yn fy nadl—fe lefarodd hefyd dros y ddeddf foesol gyffredinol sy'n rhan anhepgor o draddodiad Cristnogaeth ac y cydnebydd y prif ddiwinyddion drwy'r oesoedd ei bod yn rhwymo pob dyn byw.

"Cofier mai'r Duw a wnaeth ddynion a ordeiniodd genhedloedd ac y mae difodi cenedl y trychineb nesaf i ddifodi dynol-ryw."



Emrys ap Iwan a biau'r gair, ac y mae'r Ddeddf Foesol yn cydnabod bod cenhedloedd yn Bersonau Moesol. Y mae ganddynt briodoleddau a hawliau naturiol Personau. Yn ôl Deddf Foesol Duw y mae hawliau cynhenid y teulu a'r genedl, ac yn arbennig eu hawl i fyw, yn dyfod o flaen hawliau unrhyw lywodraeth neu wladwriaeth. Y mae hefyd yn rhan sicr o'r Ddeddf Foesol nad oes gan unrhyw wladwriaeth hawl i drin cenedl arall yn unig fel cyfrwng i ddwyn mantais iddi ei hun, ac nid oes gan lywodraeth gwlad hawl i geisio mantais iddi ei hun ar draul drygu cenedl arall. Y mae hyn oll yn rhan o ddysgeidiaeth gyffredinol Cristnogaeth erioed.

Y mae hefyd yn rhan o draddodiad cyffredinol Cristnogaeth mai dyletswydd pob unigolyn yw ufuddhau i'r Ddeddf Foesol yn hytrach nag i ddeddf wladol os tery'r naill yn erbyn y llall. Y mae'n rhan o ddysgeidiaeth gyffredinol Cristnogaeth mai dyletswydd aelodau teulu neu genedl yw amddiffyn bywyd y genedl, neu ei chadw hi rhag perygl tranc, drwy bob dull a modd y gellir, ond heb gymryd bywyd dyn yn anghyfiawn oddi arno, neu dorri'r ddeddf foesol rywsut arall.

**Dyna egwyddorion y traddodiad Cristnogol fel y dysgodd Emrys ap Iwan hwynt, fel y deëllir hwynt heddiw gan Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymreig, ac megis y dysgir hwynt o'r dechrau, yn awr a hyd fyth gan yr Eglwys Gristnogol.**

Yng ngolau eglur yr egwyddor sylfaenol hon ym moes Cristnogaeth y penderfynodd y Parchedig Lewis Valentine a D. J. Williams a minnau weithredu yn Llŷn. Arnom ni y gorffwysai cyfrifoldeb arweinwyr. Ni allem osgoi'r cyfrifoldeb. Gwelsom y llywodraeth Seisnig yn cynllunio perygl einioes i berson moesol y Genedl Gymreig. Gyda'r amynedd eithaf gwnaethom bob dim a allasem drwy ymbil a pherswâd i atal y drwg. Yr oedd llais unfryd holl arweinwyr crefyddol Cymru gyda ni. Gwrthododd llywodraeth Loegr wrando dim. Cychwynnwyd ar godi'r Gwersyll Bomio. Yr oedd yr adeiladu ar gerdded.

Penderfynasom weithredu. Penderfynasom ar weithred a ddangosai'n eglur ein hargyhoeddiad fod codi'r Gwersyll Bomio

hwn yn Llŷn yn groes i'r Ddeddf Foesol. Penderfynasom ar weithred a orfyddai i'r llywodraeth Seisnig gymryd cyfraith yn ein herbyn ni. Penderfynasom wneud difrod sylweddol ar adeiladau'r Gwersyll a mynd wedyn a'n cyflwyno'n hunain i awdurdodau'r heddlu a rhoi iddynt hwy bob defnydd i baratoi'r erlid arnom. Buom mewn poen a gofal mawr i sicrhau na byddai na pherygl na niwed i fywyd neb o gwbl. Clywsoch chwedl druenus a digydwybod y gwyliwr nos. Un peth gwir yn unig oedd yn ei druth ef, sef na chafodd ef un mymryn o niwed.

Gwnaethom ddifrod ar eiddo. Ei bris yw dwy fil a hanner o bunnoedd. Gwnaethom hynny fel na allai'r llywodraeth beidio â'n dwyn ni gerbron y frawdle hon. Gwyddem i'r dim beth a allai fod yn dynged arnom. Yn unig drwy ymddangos yma yn y doc, ar gyhuddiad a fyddai'n ddigon arswydus i ganiatau ein barnu ni i benyd-wasanaeth neu garchar am oes, yn unig felly y gallem ddwyn gweithred llywodraeth Loegr yn Llŷn gerbron cydwybod Cristnogaeth a barn foesol gwledydd cred. Methodd pob modd arall. Ond yr ydym ni yma wedi rhoi ein bywydau yn y glorian yn erbyn gweithred ysgeler y llywodraeth hon. Dyna fesur ein hargyhoeddiad.

Ac ar gyfer yr awr hon y paratoisom y cwbl oll, ar gyfer yr awr yr ymddangosem ger eich bron chwi, ddeuddeg ohonoch, ein cydwladwyr a'n cyd-Gristnogion, ac egluro'n gweithred fel yma i chwi, egluro ei hystyr a'i hachlysur, a gofyn i chwithau roi barn arni. Oblegid yr oedd ac y mae'n ddiogel gennym y gallwn brofi i chwi gyfiawnder moesol ein gweithred, ei chyfiawnder llwyr, ac er mwyn hynny ac ar gyfer hynny y buom yn byw ac yn dyheu o'r diwrnod y cynlluniwyd y cwbl gennym.

Efallai y dylwn ddweud rhywbeth am gost y difrod a wnaethom. Fel y dywedais, y mae'n ddwy fil a hanner o bunnoedd. Fe welwch ar unwaith mai chwarae plant yw hynny o'i gymharu â'r difrod a wnâi'r Gwersyll Bomio pes sefydlid yn sicr yn Llŷn. Yn wir, pe gellid cyfrif cost ariannol yr ymdrechion a wnaethpwyd gennym oll yn yr ymgyrch i berswadio'r llywodraeth Seisnig i dynnu'r gwersyll allan o Lŷn, cost amser a llafur



ein gweithwyr yn teithio a'r gweinidogion a'r cenhadon a anerchodd gyfarfodydd ledled y wlad, byddai'r ffigur yn gannoedd lawer.

**Ond nid colled y gellir ei mesur mewn miloedd o bunnau yw'r golled a ddwg y Gwersyll Bomio hwn i wlad Llŷn ac i Gymru onis disodlir ef. Ni ellwch gyfrif mewn arian faint colled iaith, colli purdeb llafar gwlad, colli cartref llenyddiaeth, colli traddodiad gwledig bro y bu ei thraddodiad yn gadwyn ddi-dor drwy bedair canrif ar ddeg. Ni fedrwch roi pris ar y pethau hyn. Ni fedrwch dalu iawn amdanynt. Yn Nhragwyddoldeb yn unig y trewir ar linyn mesur a ddywed faint y colledion hyn.**

Bu'n rhaid arnom wneud difrod trwyadl ar goed y Gwersyll Bomio. Heb ddifrod trwyadl ni allasem sicrhau y caem ymddangos yma, gerbron rheithwyr o blith ein pobl ein hunain, ac ymroi yn yr ymdrech olaf hon i ddwyn anfoesoldeb erchyll y llywodraeth gerbron barn Cymru Gristnogol.

Chwi, foneddigion a rheithwyr, yw ein barnwyr ni heddiw. A gofynnir i chwi roi barn ar achos sydd nid yn unig yn eithriadol ddieithr, ond sydd hefyd o bwys ofnadwy. Mae'n debyg gennyf nad oes enghraifft arall o arweinwyr amlwg mudiad i amddiffyn diwylliant cenedl rhag gormes llywodraeth estron, yn anturio eu rhyddid, eu bywoliaeth, eu henw da, ac efallai nid llai na'u heinioes, a'u rhoi eu hunain yn y cyffion fel y câi rheithwyr o blith eu cyd-genedl farnu rhyngddynt hwy a gallu materol y llywodraeth anghyfiaith.

Trwy wneuthur felly yr ydym yn dangos ein hymddiried nid yn unig yn eich cyfiawnder chwi fel rheithwyr, eithr yn eich dewrder yn ogystal. Ymbiliwn arnoch beidio â rhoi ffordd i unrhyw ofn. Y mae ffurfioldeb y gyfraith yn galw'r Gwersyll Bomio a daniwyd yn "Eiddo'r Brenin." Ystyr hynny yw llywodraeth Loegr. Ei ystyr yw nifer o swyddogion a chlercod yn swyddfa'r Weinidogaeth Awyr yn Llundain na wyddant ddim am Gymru ond fel enw ar fap, ac y sy'n poeri'n ddihitio ar ein hiaith, ein diwylliant a'n huchel-leoedd santaidd ni fel costog yn codi ei goes ôl ar allor.

Y mae gwedd arall ar yr achos hwn a bair ei fod yn neilltuol bwysig. Dywedasom o'r dechrau, a dyma'r pwynt mawr yn ein llythyr at Brif Gwnstabl Sir Gaernarfon, mai protest oedd ein gweithred yn erbyn gwrthodiad trahaus a chreulon y llywodraeth Seisnig hyd yn oed i ymddiddan â ni ynghylch hawliau'r genedl Gymreig yn Llŷn. Pan edrychom ar y sy'n digwydd yn Ewrop heddiw fe welwn lywodraethau ym mhobman yn ymhonni eu bod uwchlaw deddf foesol Duw, yn haeru na raid iddynt gydnabod unrhyw gyfraith ond eu hewyllys eu hunain, ac na raid iddynt gydnabod unrhyw awdurdod oddieithr nerth y wladwriaeth. Y mae'r llywodraethau hyn yn hawlio hollalluogrwydd di-amod a di-derfynau. Gwadant hawliau Personau'n gystal â hawliau Personau Moesol. Gwadant y gellir eu galw i gyfrif gerbron unrhyw farn foesol, a hawliant ufudd-dod di-gwestiwn a llwyr gan eu deiliaid.

**Yn awr, di-orseddiad Duw yw hyn. Dyma'r Butain Fawr a welodd Ioan yn feddw gan waed y saint a gwaed merthyron. Dyma wadu Duw, a gwadu deddf foesol Duw. Dyma ddymchwel holl draddodiad Cristnogaeth yn Ewrop a dechrau cyfnod tywyllwch.**

Y mae ymddygiad llywodraeth Loegr yn Llŷn, a'i hymddygiad hi tuag at ein holl brotestiadau ni, yn esiampl deg o deyrnasiad yr wrth-Gristnogaeth hon. Ac yma, yn y llys hwn heddiw yng Nghaernarfon, yr ydym ni'n tri'n herio'r fateroliaeth hon. Yr ydym yn gwadu hawliau di-amod y duw-lywodraeth. Yma yng Nghymru, gwlad na bu ganddi erioed draddodiad oddieithr traddodiad Cristnogaeth, gwlad na bu erioed na phagan na di-ffydd, yr ydym yn sefyll dros barhad egwyddorion Cristnogol, a thros barhau o'r egwyddor sylfaenol fod y ddeddf foesol yn uwch ei hawdurdod na gallu materol swyddogion llywodraeth. Eiddo Duw yw Llŷn yn gyntaf a phennaf, nid "eiddo'r brenin"; ac eiddo Cymru dan Dduw.

Os eich dedfryd chwi yw ein bod ni'n euog, byddwch yn cyhoeddi i'r byd y geill llywodraeth Seisnig yma yng Nghymru ddinistrio person moesol cenedl, y geill hi falurio sylfeini ysbrydol bywyd cenedl, y geill hi wrthod gwrando ar unrhyw apêl, hyd yn



oed apêl unfryd gan holl arweinwyr crefyddol y wlad, ac yna y geill hi ddefnyddio holl nerthoedd y gyfraith i garcharu a chosbi'r dynion a fentro roi sialens a phrawf ar ormes mor wrth-Gristnogol. Os dywedwch ein bod yn euog, byddwch yn cyhoeddi bod gair llywodraeth Loegr a'i hewyllys a'i chyfraith oll goruwch deddf foesol gyffredinol gwareiddiad Cristnogol. O'n cael yn euog byddwch yn datgan nad yw'n iawn i neb o gwbl wadu hawliau nerth materol, ac nad oes unrhyw apêl at foesoldeb fel y deallwyd moesoldeb erioed yng ngwledydd cred.

Os dywedwch ein bod yn euog, byddwch yn cyhoeddi diwedd ar awdurdod egwyddorion Cristnogaeth ym mywyd cyhoeddus a gweinyddol Cymru.

O'r ochr arall, os dywedwch mai di-euog ydym, byddwch yn datgan eich argyhoeddiad fel rheithwyr Cymreig bod awdurdod y Ddeddf Foesol goruwch pob awdurdod arall; byddwch yn haeru bod y Ddeddf Foesol yn rhwymo llywodraeth yn gystal ag unigolion. Byddwch yn cyhoeddi nad yw "Anghenion y Wladwriaeth" yn rhoi unrhyw hawl i ddisodli moesoldeb, ac mai cyfiawnder, nid nerth, sydd i reoli rhwng cenhedloedd.

Yr ydym ni'n tri yn dal gydag argyhoeddiad disigl mai gweithred a orfodwyd arnom oedd llosgi'r Gwersyll Bomio er mwyn amddiffyn gwareiddiad Cymru, er mwyn amddiffyn egwyddorion Cristnogaeth, er mwyn amddiffyn awdurdod deddf foesol Duw yng Nghymru. Nid oedd dim arall yn bosibl. Y llywodraeth ei hunan a greodd y cyfyngdra y'n gosodwyd ni ynddo, a bu'n rhaid inni ddewis naill ai bradychu'r wlad a'n derbyniodd yn arweinwyr iddi, a chilio'n llechgïaidd o'r ymdrech dros draddodiadau Cristnogol, neu ynteu weithredu megis y gwnaethom, ac ymddiried i reithwyr o blith ein cenedl gyhoeddi bod cyfraith Duw goruwch cyfraith dyn, ac yng ngolau cyfraith Duw ein bod wedi gweithredu'n gyfiawn.

Gofynnwn i chwi fod yn gwbl ddi-ofn. Gofynnwn i chwi roddi dedfryd a fydd yn adfer egwyddorion Cristnogaeth ym myd cyfraith a deddf, dedfryd a fydd yn agor cyfnod newydd a gwell yn hanes Ewrop. Gofynnwn i chwi gyhoeddi ein bod yn Ddi-euog.

*Yr Anerchiad hon a baratôdd Lewis Valentine, Is-lywydd y Blaid Genedlaethol, ar gyfer ei thraddodi i'r Rheithwyr yn Llys yr Assize yng Nghaernarfon, Hydref 13, 1936*

Foneddigion,

Gweinidog yr Efengyl ydwyf fi, a sylweddolaf bod arnaf gyfrifoldeb arbennig am y rhan a gymerais yn y llosgi a fu ar yr Ysgol Fomio ym Mhorth Neigwl yn nechrau mis Medi. Nid yn ysgafn nac yn fyrbwyll, nac yn ddifeddwl chwaith, y penderfynais bod rhaid anorfod arnaf i wneuthur a wnaethpwyd, ond ar ôl ystyriaeth ddwys a difrifol, ac yn ofn Duw, yr euthum allan y noson honno.

Fy nhasg olaf cyn gadael cartref y diwrnod hwnnw oedd hebrwng fy ngeneth fach bedair mlwydd oed i'r ysgol bob dydd am y tro cyntaf erioed, a rhyw ddyfalu yr oeddwn beth fyddai ei hynt a'i helynt hi yn ystod ei hoes, a gweddïo na fyddai raid iddi gario beichiau rhy drymion na cherdded llwybrau rhy eirwon, ac yn arbennig na fyddai ei rhan hi mor ofidus a chwerw â rhan mamau fy oes i. Gobeithiwn na chái hi byth ofid fy mam fy hun, sef gweld ei phlant—dri ohonom—yn gadael holl fwynder a llawenydd ein bywyd yng Nghymru a'n dwyn i ryfeloedd y cenhedloedd dreng. Gwnawn unrhyw beth i gadw rhagddi hi y gofid a'r galar a gafodd mamau Cymru yn ystod blynyddoedd y rhyfel diwethaf.

Yr wyf yn falch fy mod yn perthyn i genedl sydd a'i bryd ar hêddwch, a chenedl na ddarfu iddi ymladd erioed ond i amddiffyn ei ffiniau. Cenedl yw hi sydd ganddi ewyllys, ond ysywaeth, nid oes ganddi mo'r gallu, i fyw mewn heddwch â'i chymdogion yn Ewrop, canys nid ein rhyfeloedd ni yng Nghymru oedd y rhyfeloedd a fu, a chethin a fu tynged Cymru ar ôl pob un ohonynt.

Yr wyf yn ei hystyried yn rhan tra phwysig o'm huchel swydd fel Gweinidog yr Efengyl yng Nghymru i fynnu gallu i ewyllys fy mhobl, a gwneuthur bopeth a fedraf i atal rhyfyg rhyfel. Nid oes unrhyw aberth yn rhy ddrud i atal hynny, canys nid oes dim gelyn peryclach i wareiddiad Cymru, a'r gwareiddiad hwnnw yn wareiddiad cynnes Cristnogol.

A. Hyn yw fy argyhoeddiad personol i. Fe euthum yn wirfoddol i'r rhyfel diwethaf, ac yn fy niniweidrwydd credais y bregliach mai rhyfel ydoedd i derfynu rhyfel. Credais fod gwleidyddwyr Lloegr o ddifrif yn eu haddewidion, ac na chawsai ysbryd durol militariaeth le mwyach ym mywyd a pholisi'r wlad.

Ond erbyn heddiw y mae arswyd rhyfel ar bawb, ac arweinwyr llywodraeth Loegr yn chwythu yn groch ar utgyrn rhyfel, ac ar bob rhyw achlysur yn sôn yn ddi-arswyd ac yn ddi-ofn ac yn ddi-gyfrifoldeb am y rhyfel nesaf sydd i ddigwydd ar fyrder, ac yn sôn amdano fel rhywbeth a ddylai fod ac fel rhywbeth y dylai dynion fod yn falch ohono.

B. Ond nid dyna fy argyhoeddiad personol i yn unig, ond dyna hefyd argyhoeddiad unol a diysgog yr enwad a berthynaf iddo—yr enwad y caf yr uchel fraint o bregethu'r Efengyl yn ei bulpudau.

Digon i gadarnhau hyn ydyw dwyn eich sylw at benderfyniad Undeb Bedyddwyr Cymru yn ei gynhadledd flynyddol yn Rhosllannerchrugog ym mis Medi, 1932, a phenderfyniad sydd wedi ei gadarnhau droeon ar ôl hynny, nid yn unig gan yr Undeb hwn, ond gan ei Gymanfaoedd a chan eglwysi unigol sydd yn aelodau ohono.

Dyma'r penderfyniad:

"Ein bod, fel Gweinidogion a Chynrychiolwyr Eglwysi "Undeb Bedyddwyr Cymru a Mynwy, yn ein Cyfarfod Blyn- "yddol hwn, ar ôl canfod creulondeb, ffieidd-dra ac oferedd "rhyfel, a dal ar ei ganlyniadau ofnadwy yng nghyfwng "presennol yr holl fyd, gyda'i dlodi masnachol, ei gyni, ei "gasineb a'i anobaith, ac ar ôl ystyriaeth ddwys a gweddigar, "yn dymuno datgan ein hargyhoeddiad pendant a difrifol bod "Rhyfel yn hollol groes i ddysgeidiaeth ac esiampl ein "Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist, ac mai ein dyletswydd "ddiamheuol, fel Bedyddwyr, yw anrhydeddu ein proffes ohono "Ef, trwy lwyr ymwrthod â dwyn arfau dinistr, fel y gwnaeth "ein tadau yn oesoedd cyntaf yr Eglwys Gristnogol, ac yn "nechrau'r Diwygiad Protestannaidd."



Traddodiad o weithredu'n ddewr ydyw traddodiad y Bedyddwyr, ac nid pasio penderfyniadau dof, a pheth naturiol oedd chwanegu at y penderfyniad hwn y geiriau pwysfawr hyn:

"Ein bod yn gwneuthur yn hysbys mai ein bwriad yw "gwneuthur popeth yn ein gallu i atal rhyfel."

Nid peth newydd yn hanes fy enwad ydyw'r atitiwd hwn, ond yn ddewr a chyson gwrthwynebodd ryfeloedd erioed fel rhywbeth sydd yn annheilwng o uchel dras dyn, ac o'r disgleirdeb a ddyry'r Efengyl arno.

Credais fod fy enwad o ddifrif pan basiodd y penderfyniad hwn, a hynny mor wresog ac mor unfrydol, a phan gefais y fraint y bore bach hwnnw o Fedi'r wythfed o gynorthwyo'n llawen fy nghyfeilliôn i danio yr Ysgol Fomio ym Mhenyberth yr oeddwn yn gwbl hyderus fy mod yn gweithredu yn ysbryd y penderfyniad hwn, ac yn gwneuthur popeth yn fy ngallu bach i i arbed fy nghenedl rhag uffern rhyfel arall.

Safbwynt fy enwad i ydyw safbwynt diamwys enwadau Ymneilltuol Cymru Gymraeg heddiw, a phe bae lles o hynny gallwn ddarllen yn y llys hwn gannoedd o lythyrau a gefais gan weinidogion ac arweinwyr crefyddol Cymru yn cymeradwyo y weithred hon, ac yn llawenhau bod ein dehongliad o Efengyl Grist mor gywir.

Cyfeiriaf yn unig at y datganiad a wnaeth Arch-Dderwydd Cymru o gadair yr Annibynwyr ym Mangor eleni:

"Ein bwriad yw ceisio rhwystro'r gwersyll hwn drwy bob "modd a dull cyfreithlon. Ond os metha pob dull cyfreithlon, "credaf fod digon o nerth ewyllys yn y genedl Gymreig i symud "ymaith y gwersyll bomio drwy ddulliau eraill."

C. Dyma f'argyhoeddiad personol a dyma argyhoeddiad Ymneilltuaeth Cymru, ond dyma hefyd argyhoeddiad eglur y wlad a'r genedl Gymreig.

Nid peth hawdd ydyw cael unfrydedd mawr yng Nghymru ar unrhyw bwnc. Y mae llywodraeth estron wedi llwyddo yn rhy dda i ddifetha undod y wlad, a'i phropagandwyr hi yn deall eu

crefft yn rhy berffaith. Ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafwyd unfrydedd oedd bron yn wyrthiol yn y Bleidlais neu'r Balot Heddwch, ac yn y Bleidlais honno gofynnwyd i bobl Lloegr a Sgotland a Chymru ddatgan eu barn ar ryfel.

Y trydydd cwestiwn o'r pump oedd hwn: A YDYCH O BLAID LLWYR WAHARDD AWYRBLANIAU RHYFEL CENEDLAETHOL O BOB MATH DRWY GYTUNDEB CYDWLADOL? Un o'r pethau hyfrytaf ynglŷn â'r balot hwnnw oedd y dull y darfu i eglwysi Cymru ymdaflu i'r gwaith.

Cafwyd byddin o gynorthwywyr yn ddidrafferth o dŷ i dŷ i sicrhau atebion i'r gofynion—hen a chanol oed ac ifanc yn ymgiprys am gael rhan yn y gwaith. Gwelwyd yma yn ein gwlad ni frwdfrydedd nas gwelwyd ei debyg erioed. Y balot heddwch oedd pwnc y dydd drwy gydol y wlad—pwnc trafod pob pen heol a phob pentan—dyma ymddiddan marchnad a seiat, dyma oedd baich gweddïau'r saint ar Sul a gŵyl a dydd gwaith.

**Yn Sir Gaernarfon pleidleisiodd WYTH o bob Deg o holl etholwyr y Sir,** ac yr oedd y Sir hon ynghyd â siroedd Trefaldwyn a Meirionnydd, Aberteifi a Môn, yn uchaf yn holl wledydd Lloegr a Sgotland a Chymru, a thrwy Gymru oll pleidleisiodd agos i filiwn o bobl dros lwyr wahardd awyrblaniau rhyfel.

37 y cant a bleidleisiodd yn Lloegr; 34 y cant yn Sgotland—ond yng Nghymru 62 y cant. Yn Llŷn bu'r bleidlais mewn rhai mannau yn wyrthiol o unfrydol o blaid dileu awyrblaniau rhyfel.

OND NI FENNODD HYN ddim ar gynlluniau adarfogi llywodraeth Loegr, er iddi hi ymffrostio mai trwy ewyllys y bobl y llywodraetha hi arnynt. **Ei hunig ateb i'r datganiad nobl hwn o ewyllys y bobl oedd hysbysu ei bwriad o godi Ysgol Fomio yn Llŷn—dyna ei hateb ysgeler hi.**

YMA yn Sir Gaernarfon lle datganwyd llwyr anghymeradwyaeth angerddol ac unfryd yn erbyn paratoadau rhyfel—YMA lle mae'r argyhoeddiad dros heddwch gryfaf—codi YMA y math creulonaf ar bob dull arfogi, dull a gyfyd gyfog ar Brif Weinidog Lloegr o feddwl amdano.



"Y byddinoedd awyr fydd bwysicaf yn y rhyfel nesaf," medd Saunders Lewis, "a phennaf nod yr awyrblaniau bomio fydd "dinistrio dinasoedd, eu llosgi a'u gwenwyno, troi gwareiddiad y "canrifoedd yn ulw, gollwng i lawr allan o ddiogelwch yr awyr "yr angau creulonaf ar wragedd a phlant a gwŷr di-arf a di-"amddiffyn, a sicrhau, os dianc rhai a'u bywydau ganddynt, na "bydd annedd na bwyd i'w porthi nac aelwyd i'w cadw yn fyw."

I hyfforddi dynion ar gyfer gwaith budr ac annuw felly y defnyddir bro santaidd Llŷn, ac yn sgil y peth drwg hwn daw iddi yr holl bethau llygredig sy'n dilyn gwersyll milwrol.

Yn y llys hwn heddiw ceir clywed mor rhagorol o wych a fu protest y genedl yn erbyn y "ffieidd-dra anghyfanneddol" hwn. Ni arbedwyd cost, ni bu cynilo ar egni na nerth, ond aberthwyd hamdden a chysur a chwmffwrdd ym mhob ffordd deg a chyfreithlon i atal y drygwaith, ond yr oedd llywodraeth Loegr fel pres. Bu crefu a thaer ymbil am wrandawiad, ond ni ogwyddodd ei chlust.

**Nid oedd yn aros i ni ond DAU DDEWIS.**

Un dewis oedd TEWI, a dywedyd, "Dyna ni wedi gwneuthur ein gorau glas—rhaid i'r drwg bellach ffynnu—nid oes gennym ond edrych yn drist a diymadferth ar y llywodraeth yn codi'r Ysgol Fomio yn groes i ewyllys crefyddwyr y wlad—yn groes i ewyllys y genedl."

Mewn hen lyfr a ganmolir yn fynych, ond a ddarllenir yn anfynych, y mae stori am genedl arall a fu'n gyfyng arni, ac am un o'r genedl honno a gafodd ei dyrchafu i uchel swydd, a gwnaethpwyd apêl ati i ddwyn ymwared i'w phobl yn y geiriau hyn:

"Oherwydd os tewi â sôn a wnei di y pryd hyn, esmwythdra "ac ymwared a gyfyd i'r Iddewon o le arall; tithau a thŷ dy "dad a gyfrgollir."

Nid oedd obaith i ni am esmwythdra nac ymwared o le arall, a thewi nid oedd dichon i ni.

Ni allem fod yn fud ac yn ddistaw—ni fuasai bywyd yn werth draenen i ni o dewi. Bradychu treftadaeth ein plant a fyddai

hynny, a pheth gwarthus a ffiaidd a fuasai byw i ni o wneuthur hynny, a haeddu a fuasem y dirmyg a fwrid arnom gan ein cyfoedion a chan genedlaethau nas ganesid eto, **a dewisach gan bob dyn iach ydyw byrroes gyda'r gwir na hiroes gyda gwarth.** Na, nid oedd dichon i ni dewi.

Nid oedd yn aros, felly, ond dal i brotestio, a chan bod protestio mewn dull bonheddig a chyfreithlon wedi methu, rhaid oedd protestio mewn dull a **ystyrrid** yn anghyfreithlon.

A'r RHAID hwnnw ydoedd y mwyaf o bob RHAID—RHAID CYDWYBOD. Yn enw Cristnogaeth ac yn enw ein cenedl, galwai cydwybod arnom yn chwyrn i wneuthur yr hyn a honnir sy'n dorri cyfraith gwlad; ac yn enw ein Cristnogaeth ac yn enw ein cenedl, a'n cydwybod yn ein taer wasgu, gwnaethom hynny er mwyn ufuddhau i gyfraith uwch na chyfraith Lloegr.

Yn nhermau **cyfrifoldeb** y deffiniwn ni ein Cristnogaeth a'n Cenedlgarwch, a maint ein cyfrifoldeb i'r genedl hon ydyw maint ein cyfrifoldeb i Dduw, canys yr ydym ni yn credu gydag Emrys ap Iwan a chyda diwinyddion mawr yr Eglwys

"mai'r Duw a wnaeth ddynion a ordeiniodd genhedloedd hefyd;
"ac y mae difodi cenedl y trychineb nesaf i ddifodi dynol-ryw."

Dwyn dydd tranc ein cenedl yn agos a fyddai plannu'r Ysgol Fomio hon yn Llŷn, a hyn ni allwn ei oddef, canys y mae'r genedl yn santaidd ac yn gysegredig, ac yn offeryn Teyrnas Nefoedd, ac am hynny y mae pob brwydr am ei heinioes hi yn frwydr gyfiawn.

Nid ffydd rhyw ychydig o ddynion mympwyol ac opiniynus ydyw hon. Yn y flwyddyn 1923 cyhoeddwyd "Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd," sef Adroddiad y Pwyllgor Adrannol a benodwyd gan Lywydd y Bwrdd Addysg. Ar y pwyllgor hwnnw eisteddodd prifathrawon colegau, prifathro Coleg yr Eglwys yng Nghymru a Phrifathro Coleg yr Annibynwyr, ac yn gadeirydd y Pwyllgor yr oedd yr hoffusaf o Esgobion Cymru, sef y diweddar Esgob Tŷ Ddewi. Bu'n wiw ganddynt addef yr un ffydd â ninnau, canys yn yr adroddiad hwnnw a gymeradwywyd yn unfrydol ganddynt y mae'r geiriau hyn:



"Hunaniaeth Cenedl yw ei genedigaeth-fraint. Geill rhyfel
"neu oresgyniad ei llethu; geill diwylliant estron lifo drosti;
"geill dyfodiad dieithriaid ei gwanychu; ac eto y mae'n ymladd
"am ei bywyd, AC Y MAE'R FRWYDR HONNO YN
"GYFIAWN."

Y mae'n brwydr ninnau yn erbyn y peth drwg hwn sy'n peryglu einioes y genedl yn GYFIAWN. Fy nghyfrifoldeb i am Deyrnas Dduw yng Nghymru a barodd i mi daro dros Gymru yn y weithred hon, canys y mae deddf uwch na deddf gwladwriaeth Loegr—y mae'n hymlyniad ni wrth Gristnogaeth yn uwch, yn anrhaethol uwch peth na'n hymlyniad ni wrth gyfreithiau Lloegr.

**Teyrngarwch uchaf dyn yw ei deyrngarwch i Dduw—o flaen hyn nid oes dim, a phan fo gwladwriaeth yn disodli Duw ac yn treisio drwy hynny farn a chydwybod dynion—pan fo'r wladwriaeth yn treisio deddfau Duw, ac yn sarnu hawliau cenedl a orchfygodd, yna nid oes gan ddyn sydd ganddo fymryn o hunanbarch, costied a gostio, ond herio'r wladwriaeth honno.**

Ac oherwydd fy mod innau yn credu mai "rhaid yw ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion" y safaf i'm barnu yn y llys hwn heddiw. Ond y mae'r genedl eisoes wedi fy marnu—y mae fy nghydgrefyddwyr yng Nghymru eisoes wedi rhoddi eu dedfryd arnaf.

Treuliais y tair wythnos ddiwethaf yn teithio o fan i fan yn Neheudir a Gogledd Cymru yn pregethu yn uchel wyliau eglwysi fy enwad. Nid ysgrifennodd yr un eglwys ataf yn gofyn i mi dynnu fy nghyhoeddiad yn ôl, ond yn hytrach crefu arnaf i'w gadw, a'm heglwys fy hunan yn erfyn arnaf i barhau i bregethu iddynt. Rhoddasant i mi groeso a derbyniad mwy na chroeso a derbyniad tywysog neu frenin—rhoddasant i mi dderbyniad proffwyd—arddelasant fy ngweithred—rhoddasant eu bendith i mi; a heddiw, tra bo'r llys hwn yn ystyried fy achos, y mae eu gweddïau yn fur ac yn amddiffyn ac yn galondid i mi, ac am hynny ni'm dawr beth fydd dedfryd y llys hwn.

MYNNWCH

Y DDRAIG GOCH

*2c. y mis; dim ond 2/- trwy'r post am flwyddyn*

POLISI'R BLAID;

YMREOLAETH NEU

AFREOLAETH?

Anfonwch heddiw amdani i

**Swyddfa'r Blaid, Caernarfon**

Argraffwyd gan Wasg Gee, Dinbych, a chyhoeddwyd gan BLAID GENEDLAETHOL CYMRU, Swyddfa'r Blaid, Caernarfon